Yn y cyhoeddiad, nododd yr MPC bod cyflymdra adferiad byd-eang yn fras yn unol â'i Adroddiad Polisi Ariannol ym mis Tachwedd. Cyn dyfodiad yr amrywiolyn Omicron o'r coronafeirws, ystyriodd y Banc hefyd bod economi'r DU yn esblygu yn unol â disgwyliadau; fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd cynyddol a'r risg a achosir i weithgarwch o ganlyniad i'r amrywiolyn newydd, adolygodd y Banc ei amcangyfrifon ar gyfer twf GDP Ch4 a'u lleihau o 1.0% i 0.6%. Rhagamcanwyd y byddai chwyddiant yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol, gyda Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn debygol o aros uwchben 5% drwy gydol y gaeaf a chyrraedd penllanw o 6% ym mis Ebrill 2022. Yn gyffredinol, roedd y farchnad lafur yn perfformio'n well na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol ac mae BoE bellach yn disgwyl i'r gyfradd diweithdra ddisgyn i 4% o'i gymharu â 4.5% a ragwelwyd yn flaenorol, ond nodir y gallai Omicron wanhau'r galw am lafur.

Roedd CPI y DU ar gyfer mis Tachwedd 2021 yn 5.1% flwyddyn-ar-flwyddyn, wedi codi o 4.2% yn y mis blaenorol. Cododd y chwyddiant craidd, nad yw'n cynnwys y rhannau mwy cyfnewidiol, i 4.0% flwyddyn-ar-flwyddyn o 3.4%. Dangosodd y data marchnad lafur diweddaraf ar gyfer y tri mis hyd at fis Hydref 2021 fod y gyfradd diweithdra wedi gostwng i 4.2%, tra bod y gyfradd mewn gwaith wedi codi i 75.5%.

Ym mis Hydref 2021, roedd y gyfradd twf blynyddol gyfartalog 3 mis ar gyfer cyflogau yn 4.9% ar gyfer cyflog cyfan ac yn 4.3% ar gyfer cyflog arferol. Mewn termau real, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant, roedd y twf cyflog cyfan wedi cynyddu 1.7% tra bod cyflog arferol wedi cynyddu 1.0%. Mae'r newid mewn twf cyflog wedi cael ei effeithio gan newid mewn cyfansoddiad o swyddi gweithwyr, lle bu gostyngiad yn y nifer a'r gyfran o swyddi cyflog is.

Fe wnaeth cynnyrch domestig gros (GDP) dyfu o 1.3% yn nhrydydd chwarter calendr 2021 yn unol â'r amcangyfrif cychwynnol, o'i gymharu â chynnydd o 5.5% ch/ch yn y chwarter blaenorol, gyda'r gyfradd flynyddol yn arafu i 6.6% o 23.6%. Roedd cynnydd Ch3 ychydig islaw'r rhagolygon consensws o gynnydd o 1.5% ch/ch. Yn ystod y chwarter, cafodd mesurau gweithgarwch eu hybu gan sectorau a ail-agorodd yn dilyn cyfyngiadau'r pandemig, gan awgrymu bod gwariant ehangach yn wastad. Wrth edrych tua'r dyfodol, tra bod darlleniadau GDP misol yn awgrymu y bu ychydig o gynnydd mewn momentwm yn rhan olaf Ch3, disgwylir i dwf Ch4 fod yn ysgafn.

Cododd twf GDP yn ardal yr ewro o 2.2% yng nghalendr Ch3 2021 yn dilyn cynnydd o 2.1% yn yr ail chwarter a gostyngiad o -0.3% yn y cyntaf. Mae chwyddiant sydd yn y penawdau wedi bod yn gryf, gyda CPI yn cofrestru 4.9% flwyddyn-ar-flwyddyn ym mis Tachwedd, y pumed mis o chwyddiant yn olynol. Roedd chwyddiant CPI yn 2.6% f/f ym mis Tachwedd, y pedwerydd mis o gynnydd yn olynol o 0.7% f/f ym mis Gorffennaf. Ar y lefelau hyn, mae

chwyddiant yn uwch na tharged Banc Canolog Ewrop o 'o dan, ond yn agos at 2%' sy'n rhoi ychydig o bwysau ar ei safiad hirdymor o gadw ei brif gyfradd llog ar 0%.

Tyfodd economi'r Unol Daleithiau ar gyfradd flynyddol o 2.1% yn Ch3 2021, gan arafu'n sydyn o gynnydd o 6.7% a 6.3% yn y ddau chwarter blaenorol. Yn ei gyhoeddiad cyfradd llog Rhagfyr 2021, mae'r Federal Reserve yn parhau i gynnal y gyfradd Fed Funds rhwng 0% a 0.25% ond amlinellodd ei gynllun i leihau ei raglen pryniant ased yn gynt na'r hyn a nodwyd yn flaenorol a nodi eu bod yn ffafrio tynhau'r cyfraddau llog ar gyfradd cynt yn 2022, gyda thri symudiad 0.25% nawr yn ddisgwyliedig.

## 2.2 Rhagolygon credyd

Ers dechrau 2021, mae amodau credyd cymharol hynaws wedi golygu fod prisiau amnewid diffyg credydau (CDS) ar gyfer banciau mawr y DU wedi aros yn isel ac wedi dod lawr yn raddol drwy'r flwyddyn tan ganol mis Tachwedd pan wnaeth dyfodiad Omicron achosi iddynt godi ychydig. Fodd bynnag, fe wnaeth y rhagolwg economaidd gwell yn gyffredinol yn ystod 2021 helpu proffidioldeb banciau a lleihau lefel yr amhariadau a wnaed gan lawer fel darpariaethau ar gyfer benthyciadau gwael. Fodd bynnag, mae'r mesurau cefnogi busnes yn ymwneud â choronafeirws a gafodd eu diddymu'n lled ddiweddar gan y llywodraeth yn golygu na wyddys yr effaith lawn ar fantolenni banciau am beth amser.

Arweiniodd y darlun economaidd gwell yn 2021 at yr asiantaethau statws credyd yn adlewyrchu hyn yn eu hasesiad o'r rhagolwg ar gyfer sofren y DU, yn ogystal â sawl sefydliad ariannol, yn eu hadolygu o negyddol i sefydlog ac yn uwchraddio llond llaw o statysau hyd yn oed.

Wrth edrych tua'r dyfodol, tra bod siawns o hyd i fanciau wneud colledion o fenthyciadau gwael wrth i gefnogaeth y llywodraeth a'r banciau canolog gael ei ddiddymu, mae'r sefydliadau ar restr wrth-bartïon y Cyngor â chyfalaf sylweddol a disgwylir i amodau credyd cyffredinol ar draws y sector aros yn ysgafn. Mae cyfyngiadau parhad ar gyfer gwrth-bartïon ar restr fenthyca'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bydd yn parhau i adlewyrchu amodau economaidd a'r rhagolwg credyd.

## 2.3 Rhagolygon cyfraddau llog

Mae ymgynghorydd rheoli trysorlys y Cyngor, Arlingclose, yn rhagweld y bydd y Gyfradd Banc yn parhau i godi yng nghalendr Ch1 2022 i liniaru pwysau

chwyddiannol a'r dyhead ymddangosiadol gan BoE i symud oddi wrth lefelau argyfwng o gyfraddau llog.

Mae buddsoddwyr yn parhau i gynnwys codiadau lluosog yn y Gyfradd Banc dros y gorwel rhagolwg nesaf, ac er y bydd cyfraddau llog yn codi eto, mae Arlingclose yn credu na fydd y cynnydd i'r fath raddau a ragwelwyd gan farchnadoedd ariannol. Yn y tymor agos, mae'r risgiau o gwmpas achos canolog Arlingclose ar y tu uchaf tra bod risgiau'n fwy sefydlog dros y tymor canolig.

Disgwylir i enillion aros yn fras ar lefelau presennol dros y tymor canolig, gyda disgwyl i'r enillion gilt 5, 10 ac 20 mlynedd fod ar gyfartaledd o thua 0.65%, 0.90%, ac 1.15% yn ôl eu trefn. Yn y lle cyntaf, mae'r risgiau ar gyfer enillion tymor byr a chanolig ar y tu uchaf ond yn mynd yn is yn ddiweddarach, tra bod y risg ar y tu uchaf ar gyfer enillion tymor hir. Fodd bynnag, fel bob amser, mae'n sicr bron y bydd cyfnewidioldeb tymor byr oherwydd ansicrwydd a digwyddiadau economaidd a gwleidyddol.

Mae rhagolwg economaidd a chyfraddau llog mwy manwl a ddarparwyd gan Arlingclose i'w weld yn **Atodiad 1**.

**2.4** Er diben gosod y gyllideb, tybiwyd bod buddsoddiadau rheolaeth trysorlys newydd yn cael eu gwneud ar gyfradd o 0.01% ar gyfartaledd, ac na fydd angen unrhyw fenthyciadau tymor hir newydd yn 2022/23.

## 3. Y Cyd-destun Lleol

**3.1** Ar 31 Rhagfyr 2021, roedd gan y Cyngor fenthyciadau o £102.2m a £83.5m o fuddsoddiadau. Ceir rhagor o fanylder yn **Atodiad 2**. Mae tabl 1 isod yn ddadansoddiad mantolen sy'n dangos y newidiadau a ragwelir i'r symiau hyn.

Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru lle bydd gofyniad i fenthyca yn codi yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, cymeradwywyd mewn egwyddor gan y Cabinet ar 21ain Rhagfyr 2021 bydd y Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru yn trosglwyddo i Gydbwyllgor Corfforedig cyn bydd unrhyw fenthyca yn digwydd. Mae'r gofyniad benthyca yma felly wedi ei dynnu.

**Tabl 2: Meincnod Ymrwymiadau**

| | **31.3.21 Gwir £m** | **31.3.22 Amcan £m** | **31.3.23 Cyllideb £m** | **31.3.24 Cyllideb £m** | **31.3.25 Cyllideb £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| **GCC** | **174.0** | **171.9** | **176.6** | **175.8** | **174.5** |
| Llai: Adnoddau mantolen | (125.3) | (116.6) | (109.0) | (102.0) | (95.3) |
| **Gofynion benthyciadau net** | **48.7** | **55.3** | **67.6** | **73.8** | **79.2** |
| Ychwanegu: Lwfans hylifedd | 10.0 | 10.0 | 10.0 | 10.0 | 10.0 |
| **Meincnod Ymrwymiadau** | **58.7** | **65.3** | **77.6** | **83.8** | **89.2** |

**4.2** Gan ddilyn o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod tymor hir yn rhagdybio dim gwariant cyfalaf pellach wedi'i ariannu gan fenthyciadau, lleiafswm darpariaeth refeniw yn seiliedig ar oes ased a chynnydd chwyddiant o 2.5% y flwyddyn ar reserfau. Dangosir hyn yn y siart canlynol:



